# Hysbysiad Preifatrwydd – Rhoi gwybod am broblem gyda bwyd

Gwybodaeth am y polisi preifatrwydd ar gyfer rhoi gwybod am broblem gyda bwyd. Pam fod angen y data arnom ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud â'r data a'ch hawliau.

## Pam mae angen yr wybodaeth hon?

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithredu fel 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni. Rydym ni'n casglu'r wybodaeth hon er mwyn rhannu'ch manylion ag awdurdodau lleol fel y gallant ymchwilio i'r broblem fwyd yr ydych chi wedi'i rhoi gwybod amdani.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Pan fyddwn ni'n casglu gwybodaeth gennych, p'un a ydych yn fusnes neu'n ddefnyddiwr, fel arfer bydd angen eich enw a'ch gwybodaeth gyswllt a manylion eich ymholiad, eich cais neu unrhyw fater y gallech fod yn ei adrodd. Mae angen yr wybodaeth hon arnom i ddeall pam eich bod yn cysylltu â ni ac i ni allu ymateb yn unol â'n Tasg Gyhoeddus.

Os ydych chi'n rhoi gwybod am broblem gyda bwyd, er enghraifft, os ydych chi'n amau gwenwyn bwyd, os oes gennych chi broblemau gyda chynnyrch bwyd neu'n dymuno rhoi gwybod am arferion diogelwch a hylendid bwyd gwael, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi, pan fyddwch chi'n cysylltu â ni, ble rydych chi wedi dod ar draws y broblem fel y gallwn gyfeirio eich adroddiad at yr awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio iddo. Fel rheol, bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod lleol, lle bydd yn delio â hi yn uniongyrchol. Fel arall, efallai y byddwn ni'n eich cyfeirio at sefydliadau eraill sydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'ch ymholiad. Er enghraifft, os byddwch chi'n nodi problem gyda labelu bwyd, byddem yn eich cynghori i gysylltu â Safonau Masnach.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym ni'n prosesu gwybodaeth trwy'r ffurflenni yn yr adran 'Cysylltu â Ni' ar y wefan, darllenwch y Polisi Preifatrwydd sydd ar ein gwefan.

## Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ni ei rannu

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol neu i ddatrys eich problem, ac yn unol â'n polisi cadw, yr ydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn golygu efallai y bydd yr wybodaeth a gyflwynir gennych yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol. Lle mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i awdurdod lleol, bydd eich manylion personol yn cael eu dileu o'n cofnodion a'u cadw gan yr awdurdod lleol cyhyd ag y mae'r awdurdod eu hangen yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ei rannu yn ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Rydym ni ond yn cadw gwybodaeth cyhyd ag y bo angen i gyflawni ein swyddogaethau.

## Trosglwyddiadau rhyngwladol

I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhyngwladol, gweler yr adran Trosglwyddiadau Rhyngwladol yn ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE)

I gael rhagor o wybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd Dinasyddion yr UE, gweler adran dinasyddion yr UE yn ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Eich hawliau

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, gweler yr adran Eich hawliau yn ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr  Hysbysiad Preifatrwydd hwn, eich gwybodaeth bersonol neu unrhyw gwestiynau ar ein defnydd o'r wybodaeth, anfonwch e-bost at ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB, sef Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod.